# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 5 GORFFENNAF 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P Lloyd (Chair) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P M Black | A C S Colburn | D W Cole |
| A M Cook | M Thomas | D W W Thomas |
| T M White | | |

**Hefyd yn bresennol: (Aelod Ward Lleol)**
Y Cynghorydd B Hopkins

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: M H Jones, E T Kirchner, I M Richard a P B Smith

12 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd T M White – Cofnod Rhif 16 – Cais Cynllunio 2016/0517 – Personol – fel Aelod Ward.

13 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

14 **EITEMAU I'W GOHIRIO / TYNNU'N ÔL.**

Dim.

15 **CAIS I GOFRESTRU TIR YN HEOL TIRMYNYDD, Y CRWYS YN FAES TREF NEU BENTREF.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad “er gwybodaeth” a amlinellodd fanylion cais a wnaed i gofrestru tir ar Heol Tirmynydd, y Crwys.

Amlinellwyd cefndir y cais a'r ffaith fod arolygydd wedi cael ei benodi ac y penderfynwyd y dylid cynnal ymchwiliad anstatudol.

Caiff adroddiad arall ei gyflwyno i'r pwyllgor gan amlinellu argymhellion yr arolygydd yn dilyn yr ymchwiliad.

16 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.**

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio gyfres o geisiadau cynllunio.

Adroddwyd ar ddiwygiadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#).

**PENDERFYNWYD:**

**(1) CYMERADWYO'**R ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 2) Cais Cynllunio 2005/2644 – Tir oddi ar Deras Fairwood, Tregŵyr, Abertawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Adroddwyd am 2 lythyr gwrthwynebiad a anfonwyd yn hwyr.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diwygiwyd Amod 10 i nodi fel a ganlyn:
Cyn dechrau defnyddio lleiniau 1-3 mewn ffordd fuddiol, caiff y droedffordd o flaen Teras Fairwood (a ddangosir ar y darluniau wedi'u cymeradwyo yma) eu darparu'n llawn yn unol â manylion i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn gwaith datblygu ar y safle. Bydd manylion y gwaith troedffordd a gyflwynir yn cynnwys manylion y ddarpariaeth Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ddiogelu cyffordd Teras Fairwood â'r lôn i'r gorllewin o'r safle.

**#(Eitem 3) Cais Cynllunio 2016/0921 – Llain PD, PL a PN, tir i'r de o Ffordd Fabian ac i'r dwyrain o afon Tawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Adroddwyd am wrthwynebiad a e-bostiwyd yn hwyr.

Bu Mr E Jones (asiant) yn annerch y pwyllgor.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**(2) GWRTHOD** y cais cynllunio isod am y rhesymau a nodir isod:

**#(Eitem 1) Cais Cynllunio 2016/0517 – Bloc A, Dewi Sant, Heol New Cut, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Bu Mr W Chung (gwrthwynebwr) yn annerch y pwyllgor.

Bu'r Cynghorydd B Hopkins (Aelod Lleol) yn annerch y pwyllgor ac yn siarad yn erbyn y cais.

Rhesymau

1. Mae lleoliad y storfa sbwriel yn cael effaith annerbyniol ar amwynder preswyl y deiliaid cyfagos o ran ei pherthynas â'r eiddo preswyl cyfagos a'i heffaith andwyol, niweidiol wrth gyfrannu at lygredd amgylcheddol yn groes i bolisïau datblygu unedol EV2 ac EV4 Abertawe.

2. Mae dyluniad, gwedd a lleoliad y storfa sbwriel o fewn y strydlun yn amharu ar gymeriad gweledol yr ardal yn groes i bolisïau datblygu unedol EV2 ac EV4 Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.47 pm

**CADEIRYDD**